# Adroddiad blynyddol y Cynllun Busnes

## 1. Cyflwyniad

## 2. Gweithgarwch/Ymgysylltu

Mae Llywodraeth Cymru wedi parhau i weithio gyda Llywodraeth y DU ar weithredu Deddf Menter 2016 a gwella'r cynllun awdurdod sylfaenol. Mae agweddau'r gweithlu Deddf Menter 2016 (adfachu a chyfyngu taliadau ymadael) wedi eu codi gyda phartneriaid cymdeithasol (y sector cyhoeddus) drwy Gyngor Partneriaeth y Gweithlu. Yn ystod 2016-17, bu Cyngor Partneriaeth y Gweithlu a'i is-grwpiau a'i drefniadau partneriaeth cymdeithasol cysylltiedig yn ystyried amrywiaeth o faterion pwysig, gan gynnwys y Cod Ymarfer ar Gyflogaeth Foesegol mewn Cadwyni Cyflenwi.

## 3. Ymgynghori

Fel rhan o'n gwaith ymgysylltu wrth ddatblygu cynigion ar gyfer Diwygio Llywodraeth Leol, cynhaliwyd gweithdai pwrpasol gennym er mwyn trafod gyda phartneriaid cymdeithasol, gan gynnwys amrywiaeth o gynrychiolwyr busnes.

Hefyd, ym mis Rhagfyr 2016, ymunodd cynrychiolwyr o'r Undebau Llafur â'r gweithdai hyn a gynhaliwyd ledled Cymru, ac a oedd yn gyfle i uwch-arweinwyr o Lywodraeth Leol a chynrychiolwyr o'r gwasanaeth cyhoeddus ehangach ddod ynghyd i drafod cynigion ar gyfer gweithio rhanbarthol gorfodol a systematig.

Rydym wedi ymgysylltu'n helaeth â sefydliadau busnes wrth ddatblygu cynlluniau rhyddhad penodol yn sgil ailbrisio eiddo annomestig at ddibenion ardrethu ac adolygu'r cynllun ardrethi i fusnesau bach.

## 4. Gweithgarwch yn y dyfodol

Mae'r strwythurau a'r trefniadau presennol ar gyfer partneriaeth gymdeithasol yng ngweithlu'r sector cyhoeddus yn cael eu hadolygu ar y cyd â phartneriaid ar hyn o bryd, a'r bwriad yw sicrhau bod trefniadau newydd ar waith erbyn mis Mawrth 2018.